

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-17

Cyngor Sir Ddinbych

Adroddiad Asesu Blynyddol 2016-17

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen flynyddol, yr astudiaeth achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Sir Ddinbych i Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1) Crynodeb gweithredol

Mae Sir Ddinbych wedi bodloni 17 o'r 18 hawl graidd yn llawn a bodloni 1 yn rhannol.

O'r 7 dangosydd ansawdd sydd â tharged, mae Sir Ddinbych wedi cyflawni 4 yn llawn, 1 yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 1. Oherwydd newid y system rheoli llyfrgell (LMS) nid oedd data ar gael ar gyfer un dangosydd (DA 9).

Yn sgil adolygu'r fethodoleg mewn rhai ardaloedd yn dilyn yr uno â Siop Un Alwad, yn ogystal â newid yr LMS, mae Sir Ddinbych wedi cael trafferthion cael gafael ar rywfaint o ddata. Fodd bynnag, mae tystiolaeth galonogol o welliant, yn sgil cyflwyno'r rhwydwaith Wi-Fi i'r holl fannau gwasanaeth sefydlog, mwy o ddefnydd ar eitemau clyweledol a nifer uwch o ymweliadau. Mae lefelau staffio isel yn parhau i fod yn destun pryder ond ar y cyfan ymddengys bod y gwasanaeth yn sefydlogi ar ôl cyfnod o newid.

- Cynhaliodd Sir Ddinbych arolygon defnyddwyr llyfrgell i oedolion a phlant ym mis Chwefror 2017 gan sgorio'n uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru ym meysydd iechyd a lles a chanran yr oedolion sy'n dweud bod y llyfrgell yn dda iawn neu'n dda yn gyffredinol.
- Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddi wedi'u trefnu o flaen llaw wedi cynyddu eleni, ond mae'r lefel fesul pen y boblogaeth yn parhau islaw'r canolrif ar gyfer Cymru.
- Cofnododd Sir Ddinbych y 4ydd nifer uchaf o ymweliadau fesul pen y boblogaeth a'r 5ed nifer uchaf o rith-ymweliadau yn dilyn cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae Sir Ddinbych wedi methu â chyflawni unrhyw un o'r targedau ar gyfer lefelau derbyniadau, ac nid oes data ar gael ar y gwariant ar ddeunyddiau plant nac ychwaith ar ddeunyddiau Cymraeg. Mae'r ddarpariaeth TGCh fesul pen y boblogaeth yn cyrraedd y targed a osodwyd, ac mae'r holl lyfrgelloedd yn cynnig cyfleusterau TGCh.
- Mae'r lefelau gwariant cyffredinol wedi'u cadw yn Sir Ddinbych, ac mae cyfanswm y gwariant refeniw fesul pen y boblogaeth yn uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru.

O ran y pedwar maes yn y fframwaith (*Cwsmeriaid a chymunedau; Mynediad i bawb; Dysgu am oes; ac Arweinyddiaeth a datblygu*) o'i gymharu â gweddill Cymru, mae Sir Ddinbych yn gyffredinol yn perfformio'n dda yn y maes *Mynediad i bawb*, ac mae ei berfformiad yn fwy cymysg yn y meysydd eraill.

O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, cafwyd gwelliannau amlwg yn y ddarpariaeth Wi-Fi ac yn nifer yr ymwelwyr. Nid oes modd cymharu lefelau staffio a gwariant yn uniongyrchol oherwydd y newid i gynnwys adnoddau Siop Un Alwad, ac mae newid y system rheoli llyfrgelloedd (LMS) yn ystod y flwyddyn wedi cael effaith ar rai meysydd.

2) Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn yr hawliau craidd, y dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, y dangosyddion ansawdd sy'n dangos perfformiad yn erbyn awdurdodau eraill, a'r mesurau effaith. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

a) Hawliau craidd

Mae Sir Ddinbych yn cyflawni 17 o'r 18 hawl graidd yn llawn ac yn rhannol gyflawni 1. Y maes nad yw'n cyflawni'r holl hawliau craidd yn llawn yw *Arweinyddiaeth a datblygu* – mae'r dulliau trosglwyddo gwybodaeth i gwsmeriaid yn dal i gael eu hystyried.

b) Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith. O'r 7 sydd â thargedau, mae Sir Ddinbych yn cyflawni 4 yn llawn, 1 yn rhannol ac yn methu â chyflawni 1. Oherwydd newid y system rheoli (LMS) yn ystod y flwyddyn, nid oedd data ar gael ar gyfer DA 9:

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau	✓	
c) Llythrennedd gwybodaeth	✓	
d) Cymorth e-lywodraeth	✓	
e) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 5 Lleoliad manau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 8 Deunydd darllen cyfoes:		Heb ei gyflawni
a) Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	✗	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	✗	
b) Cyfradd adnewyddu	✗	
DA 9 Deunydd darllen priodol:		
a) % y gyllideb deunyddiau ar blant	<i>amherthnasol</i>	
b) % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	<i>amherthnasol</i>	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	<i>amherthnasol</i>	
DA 10 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) Pob man gwasanaeth	✓	
Cyfrifiaduron fesul pen y boblogaeth	✓	
b) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
a) Staff fesul pen y boblogaeth	✗	
b) Staff proffesiynol fesul pen y boblogaeth	✓	

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
c) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
d) Canran DPP	<i>amherthnasol</i>	
DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

O'i gymharu â'r llynedd, cafwyd gwelliant yn DA 10, gyda'r holl fannau gwasanaeth sefydlog nawr yn cynnig mynediad Wi-Fi.

c) Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio casglu tystiolaeth o'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Drwy'r dangosyddion hyn a rhai eraill, mae'n bosibl gweld sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu tuag at agendâu addysgol, cymdeithasol, economaidd ac iechyd a lles, yn lleol a chenedlaethol. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn. Nid oedd pob awdurdod wedi casglu data ar gyfer y dangosyddion effaith, ac mae'r safleoedd felly wedi'u cynnwys yn ôl nifer yr ymatebwyr a nodir, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Sir Ddinbych arolwg defnyddwyr llyfrgell i oedolion a phlant ym mis Chwefror 2017. Oherwydd prinder staff, ni chasglwyd data ar nifer y mynychwyr sesiynau hyfforddi a oedd wedi cael cymorth i gyflawni eu hamcanion.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	85%	17/19	68%	93%	100%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	86%	10/19	36%	86%	97%
% y plant sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	82%	8/17	58%	82%	98%
DA 4 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	<i>amherthnasol</i>		80%	97%	100%

Cyflwynodd Sir Ddinbych un astudiaeth achos effaith, a honno'n disgrifio'r gwasanaeth Pwyntiau Siarad. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddinasyddion gwrrd â staff iechyd a gofal cymdeithasol o sefydliadau partner i drafod materion sy'n berthnasol iddynt hwy; gellid wedi cryfhau'r astudiaeth achos trwy gynnwys tystiolaeth gan ddefnyddwyr.

d) Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i gymharu perfformiad rhwng awdurdodau. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Sir Ddinbych ar gyfer 2016-17. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer dwy flynedd gyntaf y fframwaith o ran DA 4 i DA 16 wedi'u hailadrodd er hwylustod cymharu. Noder bod y dangosyddion 'fesul pen' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2015/16	Safle	2014/15	Safle	
DA 1 Gwneud gwahaniaeth									
a) sgiliau newydd	58%	15/19	23%	71%	93%	<i>amherth nasol</i>			
c) iechyd a lles	58%	10/20	26%	56%	94%	<i>amherth nasol</i>			
d) lle diogel a chroesawgar	93%	19/19	93%	98%	100%	<i>amherth nasol</i>			
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid									
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	90%	8 /20	74%	90%	98%	<i>amherth nasol</i>			
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	98%	12/20	90%	99%	100%	<i>amherth nasol</i>			
c) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	98%	5 /20	92%	97%	100%	<i>amherth nasol</i>			
d) sgôr plant allan o ddeg	8.7	16/19	8.6	9.1	10.0	<i>amherth nasol</i>			
DA 4 Hyfforddiant i ddefnyddwyr									
a) mynychwyr fesul pen	12	20	3	34	248	11	19	8	20
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen y boblogaeth	<i>amherth hnasol</i>		1	156	712	<i>amherth nasol</i>		206	7 / 21
DA 6 Defnyddio'r llyfrgell									
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	4,805	4	2,453	4,033	6,751	4,579	8	5,082	5
b) rhith-ymweliadau fesul pen y boblogaeth	1,201	5 /21	341	922	2,299	397	21	700	15
c) benthycwyr gweithredol fesul pen y boblogaeth	183	7	77	153	235	159	11	179	7
DA 7 mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth	298	5	62	214	496	393	2	464	1
DA 11 Defnyddio TGCh - % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd									
a) offer	<i>amherth hnasol</i>		16%	32%	69%	27%	16	34%	14
DA 12 Cyflenwi ceisiadau									
a) % ar gael o fewn 7 diwrnod	73%*	8 /21	48%	70%	82%	86%	1	81%	1
b) % ar gael o fewn 15 diwrnod	80%*	16/21	65%	85%	96%	95%	2	90%	3
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau									
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	0	20	0	24	209	38	5	0	17
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	0	20	0	798	5,156	793	10	0	17
DA 14 Gwariant gweithredol									
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£14,244	7 /21	£6,745	£11,979	£16,968	£13,934	8 / 21	£16,749	5
b) % ar staff	56%	13/21	46%	58%	75%	55%	14 / 21	57%	11
% ar adnoddau gwybodaeth	10%	18/21	4%	13%	25%	10%	16 / 21	11%	17
% ar offer ac adeiladau	7%	4 /21	0%	4%	20%	8%	4 / 21	4%	11
% ar gostau gweithredol eraill	26%	8 /21	9%	22%	37%	27%	9 / 21	28%	9
c) gwariant cyfalaf fesul	£2,280	3 /21	£0	£341	£16,692	£111	12 / 21	£228	12

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2015/16	Safle	2014/15	Safle	
DA 15 Cost net am bob ymweliad	£2.51	7 /20	£1.50	£2.33	£3.30	£2.53	9 /21	#	
DA 16 Oriau agor (<i>gweler y nodyn</i>)									
(ii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	1	0.00%	0.00%	0.48%	0.00%	1	0%	1
b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	<i>amherth</i>		0.00%	0.13%	8.33%	<i>amherth</i>		<i>nasol</i>	

Nodyn: Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).

** Drwy gytundeb â MALD, mae'r ffigyrau yn seiliedig ar dri mis cyntaf y flwyddyn yn unig oherwydd rhoi system rheoli llyfrgell newydd ar waith yng nghanol y flwyddyn.*

Ni chyflwynwyd data incwm ar gyfer 2014-15 er mwyn cyfrifo'r ffigwr hwn.

Dim ond tri awdurdod a gyflwynodd ddata ynghylch y defnydd ar Wi-Fi yn ystod 2016-17 ac felly nid yw wedi'i gynnwys yn y tabl uchod.

3) Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi cael eu rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn erbyn y dangosyddion ansawdd yn y pedwar maes hynny, ac yn cymharu'r canlyniadau â rhai dwy flynedd gyntaf y fframwaith.

a) Cwsmeriaid a chymunedau

Cynhaliodd Sir Ddinbych arolwg defnyddwyr llyfrgell i oedolion a phlant ym mis Chwefror 2017, gan fod â sampl cymharol fach. Mae'r awdurdod yn sgorio'n uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru ym meysydd iechyd a lles ac o ran canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell yn dda neu'n dda iawn; fodd bynnag, mae'n sgorio islaw'r canolrif ym meysydd sgiliau newydd ac, ar 93%, dyma'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf o ran canran yr oedolion sydd wedi teimlo'r llyfrgell yn lle diogel a chroesawgar. Fodd bynnag, mewn cyd-destun ehangach, mae hwn yn dal yn ganlyniad da iawn.

Cafwyd cynnydd o 7% yn y nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddi wedi'u trefnu o flaen llaw, ond mae hyn yn parhau'n isel. Ni chofnodwyd y nifer sy'n cael cymorth drwy hyfforddiant anffurfiol eleni oherwydd prinder staff. Mae pob man gwasanaeth yn darparu ystod eang y gwasanaethau i gefnogi datblygiad unigol.

b) Mynediad i bawb

Mae Sir Ddinbych yn cyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth gan gofnodi nifer yr ymweliadau i adeiladau llyfrgell sy'n bedwerydd uchaf fesul pen y boblogaeth yng Nghymru, ac yn gynydd o 5% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae nifer y rhith-ymweliadau wedi treblu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r lefel fesul pen y boblogaeth nawr yw'r pumed uchaf yng Nghymru. Mae cyfanswm nifer aelodau'r llyfrgell wedi haneru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag, mae hyn yn bennaf oherwydd newid yn y LMS sydd wedi bod yn gyfle i lanhau data'r aelodaeth data, ac mae'r lefel fesul pen y boblogaeth yn parhau yn uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd. Mae nifer y benthydwyr gweithredol wedi cynyddu 15% er nad yw'r data ond yn cynhrychioli 7 mis ac nid blwyddyn lawn. Dylid canmol y gwasanaeth am y meysydd gwelliant hyn sy'n mynd yn

erbyn y duedd gyffredinol yng Nghymru.

Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau a drefnwyd gan y llyfrgell 24% yn is na'r llynedd, er bod y lefel fesul pen y boblogaeth yn parhau yn uwch na'r canolrif a dyma'r pumed uchaf yng Nghymru.

c) Dysgu am oes

Mae Sir Ddinbych wedi gweld cynnydd yn nifer y derbyniadau ac yng nghyfanswm y gwariant ar ddeunyddiau yn 2016-17, ond fodd bynnag, mae'n dal yn methu â chyrraedd y targedau ar gyfer derbyniadau ac yn cofnodi un o'r cyfraddau adnewyddu isaf o'r holl awdurdodau hynny a gyflenwodd ddata. Oherwydd gweithio gyda dwy system LMS wahanol yn ystod y flwyddyn, nid yw Sir Ddinbych wedi gallu darparu data am y gwariant ar ddeunyddiau plant na deunyddiau Cymraeg.

Mae'r ddarpariaeth TGCh fesul pen y boblogaeth yn cyrraedd y targed a osodwyd, ac mae'r holl lyfrgelloedd yn darparu cyfleusterau, er nad oedd Sir Ddinbych yn gallu echdynnu'r data ynghylch nifer yr oriau y mae cyfleusterau TGCh a Wi-Fi ar gael ac yn cael eu defnyddio, a'r cyfleusterau hynny nawr ar gael yn yr holl fannau gwasanaeth sefydlog.

Mae nifer y ceisiadau wedi gostwng 59% o'i gymharu â'r llynedd ac mae canran y ceisiadau hynny sydd wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod wedi gostwng yn is na'r canolrif ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd, fodd bynnag, nodir bod mabwysiadau system rheoli llyfrgell newydd wedi cael effaith ar gyflenwi ceisiadau am dri chwarter y flwyddyn.

d) Arweinyddiaeth a datblygu

Cafwyd newidiadau mawr yn y ffordd y mae Sir Ddinbych wedi cyfrifo'r ffigyrau staff yn 2016-17. Yn ffurflen y llynedd, cyfrifwyd y cyfan o'r staff ychwanegol yn sgil uno â'r Siop Un Alwad; fodd bynnag, ar gyfer 2016-17, mae'r ffigyrau FTE a gwariant ar staff ond yn cynnwys 50% o'r staff ac mae hyn yn adlewyrchiad cywirach o gydbwysedd y gwaith ac yn debyg i'r hyn a adroddir gan awdurdodau eraill. O ganlyniad, nid oes modd cymharu'n uniongyrchol â'r flwyddyn flaenorol.

Nid yw Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn cyrraedd y targedau ar gyfer nifer y staff yn gyffredinol na nifer y staff proffesiynol, gan fod ag un o'r lefelau isaf o ran cyfanswm staff fesul pen y boblogaeth yng Nghymru. Mae Sir Ddinbych yn un o dri awdurdod yn unig i beidio â defnyddio gwirfoddolwyr eleni, o'i gymharu â 38 gwirfoddolwr y llynedd. Oherwydd nifer y staff newydd o ganlyniad i'r Siop Un Alwad, nid yw wedi bod yn bosibl i Sir Ddinbych ddarparu gwybodaeth ar hyfforddiant staff.

Mae'r lefelau gwariant wedi'u cynnal yn Sir Ddinbych yn 2016-17, gydag ychydig o gynnydd yn y gwariant refeniw yn gyffredinol, ac felly mae'r lefel fesul pen y boblogaeth yn parhau yn uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru. Y gost net gyfartalog am bob ymweliad yn 2016-17 oedd £2.51 – sydd lawr ar £2.53 y llynedd oherwydd y cynnydd yn y rhith-ymweliadau. Mae'r oriau agor yn cyrraedd y targed a osodwyd, ac ni chafodd unrhyw wasanaeth ei gau heb gynllunio gwneud hynny.

4) Cyd-destun strategol

Cyflwynodd Sir Ddinbych ddatganiad clir yn dangos cyfraniad y gwasanaeth i flaenoriaethau ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru, a hynny ym meysydd datblygiad y blynyddoedd cynnar a diwylliant Cymru, dysgu gydol oes, gwytnwch cymunedol a chydraddoldeb.

5) Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn sgil ad-drefnu ym mis Ebrill 2016, mae cynlluniau i'r dyfodol yn cynnwys datblygiad pellach ar ganolfannau cymunedol, gan gynnwys adnewyddu arfaethedig, brandio newydd a marchnata, fframwaith datblygu proffesiynol a rhaglen wirfoddolwyr, a hyfforddiant ymwybyddiaeth Cyfeillion Dementia.

6) Casgliad

Yn sgil adolygu'r fethodoleg mewn rhai ardaloedd yn dilyn yr uno â Siop Un Alwad, yn ogystal â newid yr LMS, mae Sir Ddinbych wedi cael trafferthion cael gafael ar rywfaint o ddata. Fodd bynnag, mae tystiolaeth galonogol o welliant, yn sgil cyflwyno'r rhwydwaith Wi-Fi i'r holl fannau gwasanaeth sefydlog, mwy o ddefnydd ar eitemau clyweledol a nifer uwch o ymweliadau. Mae lefelau staffio isel yn parhau i fod yn destun pryder ond ar y cyfan ymddengys bod y gwasanaeth yn sefydlogi ar ôl cyfnod o newid.